# Cronfa Gymunedol a noddir gan TfC a Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gorllewin Cymru

## Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr

Dylid ddarllen y nodiadau hyn cyn cyflwyno cais i Gronfa Gymunedol Trafnidiaeth Cymru

**Beth yw Cronfa Gymunedol Trafnidiaeth Cymru?**

Mae'r gronfa wedi ei chynllunio i gefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd mudiadau sydd ddim a modd codi arian a ble mae dulliau eraill o gyllid wedi diflannu neu costau wedi mynd i fyny oherwydd defnyddio mwy o wirfoddolwyr.

Y prif meini prawf yw fod grwpiau yn gallu dangos sut bydd y gronfa yn cynorthwyo i gynnal y mudiad yn y dyfodol a chadw'r gwasanaeth i fynd. Bydd rhaid i'r grwp hefyd ddangos sut bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio a sut bydd hyn o fudd i'r gymuned.

### Cronfa Trafnidiaeth Cymru -- Trosolwg

Bydd y gronfa yn darparu cyfloeoedd cyllid fyny i:

. **£1000.00**

## Sut gellir defnyddio'r grant?

Gellir cysidro amrediad eang o weithgareddau. Rhaid i'r grwp ddangos beth fyddai effaith y gweithgareddau ar y gymuned a sut byddai'r cyllid yn helpu cynnal eu mudiad a'i gweithgaredd.

Gall y grant gael ei ddefnyddio i gyflwyno prosiectau sydd un a'i yn waith ieuenctid, iechyd meddwl, cefnogi'r henoed, cwnsela, trais yn y cartref, addysg – dyma rhai esiamplau. Nid oes rhaid i'r grant fod yn gostau prosiect yn unig gall fod yn gostau rhedeg, costau staff, biliau, rhent neu gynnal a chadw. Rhaid dangos nad oes modd talu am rhain drwy unrhyw ffordd arall.

**Mudiadau Cymwys**

Mudiadau gyda chyfansoddiad
Cyfrif Banc yn enw'r mudiad – gyda'r angen i 2 arwyddo

Unrhyw fudiad cymunedol, elusen, CIC ac o fewn 5 milltir i Orsaf Trafnidiaeth Cymru. Os nad yw'r mudiad o fewn yr ardal ond yn gallu dangos sut fydd y grant yn cefnogi'r gymuned mae hyn yn dderbyniol. ***Gweler map ar y diwedd***

Ni fydd grantiau ar gael i:

- Fusnesau preifat
- Unigolion
- Unrhyw waith statudol
- Brosiectau gwleidyddol
- Gynlluniau wedi cychwyn yn barod

- I'w roi fel arian wrth gefn
- Os nad oes gennych 2 yn arwyddo ni ellimr cyflwyno cais

**Ble mae gorsafoedd rheiffordd Dyffryn Conwy a Gogledd Orllewin Cymru?**

**Llinell Gogledd Orllewin**

Gogledd – De: Caergybi, Fali, Rhosneigr, Ty Croes, Bodorgan, Llanfairpwll, Bangor, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy & Chyffordd Llandudno Junction

**Llinell Dyffryn Conwy**

De - Gogledd: O Flaenau Ffestiniog, Pont Rhufeinig, Dolwyddelan, Pont-y-Pant, Betws-y-Coed, Llanrwst, Gogledd Llanrwst, Dolgarrog, Tal-y-Cafn, Glan Conwy, Cyffordd Llandudno, Deganwy & Llandudno

**Cwblhau eich Ffurflen Gais**

**Adran 1: Eich Sefydliad**



- Dywedwch pwy ydych/sut mae cysylltu ?
- Math o sefydliad (h.y elusen/ gwirfoddol/cymdeithas/ clwb ieuenctid/cyngor cymuned/grwp amgylcheddol)
- Beth mae eich sefydliad yn ei wneud?



**Adran 2: Am eich prosiect**

- Dywedwch wrthym am eich prosiect……...
- Beth ydych eisiau wneud? A pam?
- Pa wahaniaeth wnaiff eich prosiect yn eich cymuned/defnyddwyr ?
- Fydd o yn rhoi cyfle i bobl gyfrannu a gwirfoddoli?
- Faint o bobl gaiff fudd o'r prosiect?
- Faint o wirfoddolwyr?
- Dyddiad cychwyn a dyddiad gorffen.
- Byddwch yn glir drwy ddatgan beth rydych am wneud, bydd hyn o fudd i'r panel asesu ddeeall beth rydych yn geisio wneud !
- Rhaid amlinellu bydd y cynllun yn arfaethedig

## Adran 3: Gwybodaeth Ariannol



- Adran yma yn delio gyda chostau y prosiect
- Rhestru pob eitem
- Cynnwys y gost net, elfen TAW, cost llawn
- Yn olaf ar y gwaelod nodi faint o grant rydych yn ymgeisio amdano

**Gwybodaeth Ddefnyddiol Bellach:**

- Rhaid i ymgeiswyr ddangos cefnogaeth y gymuned drwy un a'u lythyrau neu ebost (2 neu 3)

**Yn dilyn derbyn grant :**

Cyswllt yn derbyn Llythyr/Ebost yn amlinellu penderfyniad y panel. Os yn llwyddianus rhaid cytuno i:

- Gyflwyno taleb ar gyfer pob gwariant
- Defnyddio'r arian yn union yn y cais.
- Hyrwyddo Cronfa Gymunedol Trafnidiaeth Cymru
- Rhaid cwblhau gwariant erbyn 31 Mawrth 2023

**OS BYDDWCH ANGEN GALLWCH GYSYLLTU GYDA CARYS NEU ARWEN AM SGWRS BELLACH.**

**GDPR a'i Ddefnydd**

Bydd Mantell Gwynedd yn gweithredu ar ran Cludiant i Gymru yn defnyddio yr wybodaeth a gyflwynir ar gyfer pwrpas gweinyddol yn fewnol . Gan y bydd rhywfaint o'r wybodaeth yn 'bersonol' bydd yn cael ei weithredu yn ôl gofynion ac oblygiadau y Ddeddf Diogelu Data 1998.

**Dychwelwch y Ffurflen Gais i:**

**Carys Williams : carys@mantellgwynedd.com**

**Neu**

**Arwen Evans: arwen@mantellgwynedd.com**


Holyhead
Holy Island
Trearddur Bay
Valley
Rhosneigr
Llanfaelog
Ty Croes
Bodorgan
Anglesey
A55
Niwbwrch
Penbol
Amlwch
Llangefni
Gaerwen
Llanfaglan
Caernarfon
Marian-glas
Benllech
Llanfairpwll
A487
Bangor
46 min
Llanberis
Beaumaris
A55
Abergwyngregyn
A55
Llanfairfechan
Penmaenmawr
Llandudno Junction
A5
Capel Curig
Dolgarrog
A470
Tal-y-cafn
Conwy
Llandudno
Snowdonia
Llanrwst
Llanddoged
A470
Rhos on Sea
Llandudno Junction


Llandudno
Deganwy
Llandudno Junction
Glan Conwy
Tal-y-Cafn
Dolgarrog
North Llanrwst
Llanrwst
Betws-y-Coed
Pont-y-Pant
Dolwyddelan
Roman Bridge
Blaenau Ffestiniog
0
2
Kilometer
10